# Bwletin y Farchnad HCC

Awst 2020


**Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn bwrw golwg dros y farchnad gig oen hyd yma eleni.**

**Roedd prisiau'r farchnad am ŵyn dethol yn tueddu i fod yn uwch na'r flwyddyn flaenorol yn ystod misoedd cyntaf 2020, ond cafwyd gostyngiad sylweddol dros nôs pan gyhoeddwyd y cyfyngiadau symud ym mis Mawrth. Cafwyd adferiad yn y prisiau yn ystod yr wythnosau dilynol ym mis Ebrill, gan gyrraedd brig o 263.3c/kg yn ystod mis Mai. Oddi ar hynny, bu'r prisiau'n uwch nag ydynt fel arfer yr adeg hon o'r flwyddyn, ac yn ystod yr wythnosau diwethaf buont oddeutu 40c yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd.**

## CYFLENWAD

Mae'r ystadegau lladd gan Defra ar y gyfer y misoedd Ionawr – Gorffennaf yn dangos sut mae pandemig Covid-19 wedi amharu ar sector cig oen y DU. Er bod **trwybwn ŵyn dethol** yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl, mae'r trwybwn ar gyfer saith mis cyntaf y flwyddyn yn dal i fod yn is o lawer nag yn 2019; lladdwyd 3.8% (neu 262,000 pen) yn llai. Y rheswm pennaf am y cynnydd yn ystod mis Gorffennaf oedd y galw oherwydd gŵyl Eid-al-Adha ar ddiwedd y mis. Wrth i gyfnod y cyfyngiadau symud ddechrau yn y DU ym mis Mawrth, bu bron i'r gwasanaeth bwyd gau yn llwyr ac oherwydd cafwyd llai o alw am gig oen. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn y ffaith fod 16.4% yn llai o ŵyn wedi cael eu lladd ym mis Ebrill nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn gynharach; ym mis Mai roedd y gostyngiad yn 22.1%.


**Trwybwn ŵyn dethol yn y DU**




Ar ben hyn, roedd pwysau cyfartalog y carcasau cig oen yn ystod y cyfnod o saith mis, sef 20.0kg, yn 0.3kg yn ysgafnach na'r flwyddyn flaenorol am fod y prisiau da wedi denu ŵyn i'r farchnad yn gynharach. Cyfanswm y cig oen dethol a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod o saith mis yw 134,240 tunnell – gostyngiad o 5.2% o'r naill flwyddyn i'r llall, oherwydd carcasau ysgafnach a llai o ŵyn yn cael eu lladd

## MASNACH

Mae cyfaint y cig defaid a **allforiwyd** o'r DU yn ystod y cyfnod Ionawr i Mehefin wedi tueddu i fod yn llai nag yn 2019 – gostyngiad o 13.3% i 38,600 tunnell, yn ôl Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae'n debygol taw'r rheswm am hyn yw bod llai o gig ar gael i'w allforio, a bod llai o alw am gig oen yn yr UE oherwydd Covid-19. Y gostyngiadau yng nghyfaint y cig defaid a allforiwyd i'r Almaen (-33.2%) ac i Ffrainc (-17.0%) oedd y gostyngiadau mwyaf o'r naill flwyddyn i'r llall a gafwyd yn ystod y cyfnod. Mae cyfanswm y gostyngiad mewn allforion yn deillio o ostyngiad o 21.3% yng nghyfaint y carcasau cyfain a allforiwyd. Cafwyd ychydig o welliant mewn allforion (+2.9% o'r naill flwyddyn i'r llall) yn ystod mis Mehefin, ac mae hyn yn rhoi peth hyder y bydd y fasnach yn dychwelwyd i 'normal' yn ystod y misoedd nesaf. O ran gwerth, mae allforion cig oen yn ystod y flwyddyn bellach wedi rhagori ar y llynedd, sef £191.1 miliwn o'i gymharu â £187.4 miliwn ar gyfer hanner cyntaf 2019.




Mae cyfanswm cyfaint y cig defaid a **fewnforiwyd** i'r DU yn ystod y cyfnod o chwe mis hefyd yn is nag oedd y flwyddyn flaenorol, sef 34,340 tunnell (-9.9%). Gostyngiad yn y mewnforion o Iwerddon (-35.4%) a Seland Newydd (-7.2%) oedd y prif reswm am y gostyngiad; cafodd tua 1,000 tunnell yn fwy na'r llynedd ei fewnforio o Awstralia. Gostyngiad o 23.8% yn y mewnforion o gig defaid ffres/wedi oeri yw'r prif reswm am y gostyngiad cyffredinol.


## Y GALW


Bu'r galw am gig oen ar y farchnad gartref yn gryf yn ystod y misoedd diwethaf. Mae data gan Kantar Worldpanel yn dangos fod **gwariant** defnyddwyr ar gig oen yn y siopau ym Mhrydain yn ystod y cyfnod o 12 wythnos i 12 Gorffennaf yn 19.2% yn uwch nag oedd flwyddyn yn gynharach. Mae'r cynnydd yn y **cyfanswm** a wariwyd ar gig oen yn dilyn cynnydd o 10.0% yng nghyfanswm y cyfaint a brynwyd, ynghyd â chynnydd yn y **pris cyfartalog** i £10.19/kg. Yn dilyn cynnydd yn nifer y teuluoedd a ddewisodd aros yn y DU ar gyfer eu gwyliau haf, mae'r galw am gig y tu allan i'r cartref yn fwy nag oedd flwyddyn yn ôl.

Wrth edrych ar y cynnydd yn y cyfaint a brynwyd, mae'r data yn awgrymu cynnydd hefyd yn nifer y bobl sy'n prynu cig oen am y tro cyntaf, neu'n ailddechrau prynu cig oen (cafwyd cynnydd o 13.9% yn nifer y prynwyr), yn hytrach na bod y prynwyr arferol yn prynu mwy (mae'r cyfaint y prynwr wedi gostwng 3.4%). Mae'r ffigurau hyn yn newyddion da i'r sector ac yn dangos fod cig oen wedi gwneud yn dda yn ystod y cyfnod pan fu cyfyngiadau symud.



## Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr





**Cynnyrch Cig Eidion yn y DU**


## GWARTHEG

Mae pris y farchnad ar gyfer yr holl wartheg dethol yng Nghymru a Lloegr yn dal i fod yn uwch nag oedd flwyddyn yn ôl. Yn yr wythnos yn diweddu 22 Awst, roedd y pris pwysau byw yn 198.3c/kg, sef 7.8c yn is na'r wythnos flaenorol, a 20.6c yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r pris ar hyn o bryd yn 8.1c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2015-19: 190.2c/kg). Yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 22 Awst, roedd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych yn 355.2c/kg, sef 0.8c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol a 32.7c yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol. Yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 22 Awst, roedd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych yn 368.9c/kg, sef 2.0c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol a 46.9c yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y pris pwysau marw am heffrod yn 368.0c/kg (+0.5c ar yr wythnos flaenorol). Y pris am deirw ifainc oedd 364.4c/kg (-0.1c), a'r pris am fuchod difa oedd 261.8c/kg (-1.0c).

Lladdwyd cyfanswm o 241,300 o wartheg yn lladd-dai'r DU ym mis Gorffennaf, sef 8.1% yn llai nag ym mis Gorffennaf 2019. Mae hyn yn golygu y cafodd 0.6% yn llai o wartheg na'r llynedd eu lladd yn ystod saith mis cyntaf 2020. Cafwyd cynnydd o 9.6% (neu 15,600 pen) i 177,300 yng nghyfanswm y gwartheg dethol a laddwyd yn ystod y mis. O fewn y cyfanswm hwn, gwelwyd y cynnydd mwyaf o'r naill flwyddyn i'r llall yn nifer yr heffrod (+14.1%). Lladdwyd 11.8% yn fwy o wartheg llawn-dwf nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu y gallai'r prisiau da yn ystod mis Gorffennaf fod wedi peri i gynhyrchwyr werthu eu gwartheg yn gynharach nag arfer, a olygodd fod 9.0% yn fwy o gig eidion (cyfanswm o 80,100 tunnell) wedi ei gynhyrchu yn ystod mis Gorffennaf.

## Prisiau wyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru





**Cynnyrch Cig Defaid yn y DU**


## DEFAID

Mae'r Dyfynbris Ansawdd Safonol pwysau byw am ŵyn dethol wedi bod yn gostwng ychydig yn ystod yr wythnosau diwethaf, ond mae'n dal i fod yn uwch nag yn y gorffennol. Yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 22 Awst, cafwyd gostyngiad o 11.7c i 201.4c/kg yn y pris cyfartalog. Ond roedd yn dal i fod yn 26.6c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2019, a 29.5c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2015-19: 171.9c/kg). Mae prisiau mamogiaid difa mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru hefyd wedi bod yn gryf, gyda'r pris diweddaraf yn £55.50 y ddafad am yr wythnos yn diweddu 22 Awst – sef £3.30 yn is nag yn yr wythnos flaenorol, ond £8.70 yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol y llynedd. Roedd prisiau pwysau marw ŵyn ym Mhrydain yn 460.9c/kg yn yr wythnos yn diweddu 22 Awst, sef 7.4c yn is nag yn yr wythnos flaenorol.

Cyfanswm yr holl ddefaid a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Gorffennaf oedd 1.4miliwn, sef 15.1% yn fwy nag yn y mis cyfatebol y llynedd. Y rheswm am y cynnydd hwn oedd bod 16.8% yn fwy o ŵyn dethol a 2.1% yn fwy o ddefaid difa na'r llynedd wedi eu lladd. Roedd pwysau cyfartalog carcasau ŵyn dethol yn ystod Gorffennaf (sef 19.2kg) yn 0.3kg yn ysgafnach nag ym mis Gorffennaf 2019 – sy'n awgrymu fod cynhyrchwyr yn manteisio ar y prisiau da ar hyn o bryd drwy werthu eu hŵyn yn gynharach. Cynhyrchwyd cyfanswm o 28,800 tunnell o gig defaid ym mis Gorffennaf, sef 14.1% yn fwy na'r llynedd.

## Pris cyfartalog moch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain




**Cynnyrch Porc yn y DU**

## MOCH

Roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) ym Mhrydain yn 166.3c/kg yn yr wythnos yn diweddu 15 Awst, sef 0.5c yn is nag yn yr wythnos flaenorol ac 10.7c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol flwyddyn yn gynharach. Roedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg ym Mhrydain yn yr wythnos yn diweddu 15 Awst yn £61.71 y mochyn (12.8% yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl) ac roedd y pris cyfartalog am berchyll 7kg yn £42.30 y mochyn (+10.9%).

Cyfanswm yr holl foch a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Gorffennaf oedd 986,900 pen, sef 6.6% yn fwy nag yn y mis cyfatebol y llynedd. Daeth y cynnydd hwn yn sgil cynnydd o 6.3% (129,800 pen) yn nifer y moch heb fagu a laddwyd yn lladd-dai'r DU yn ystod y mis. Cafwyd cynnydd hefyd yn nifer yr hychod a baeddod a laddwyd yn ystod mis Gorffennaf (+21.4%). Roedd pwysau cyfartalog carcasau'r moch heb fagu yn ystod y mis (sef 86.0kg) yn 2.0kg yn drymach. Golygodd y cyfuniad o garcasau trymach a mwy o foch yn cael eu lladd gynnydd o 9.2% yn y porc a gafodd ei gynhyrchu ym mis Gorffennaf (86,200 tunnell).